# Canllawiau ar sicrwydd oedran effeithiol iawn a dyletswyddau eraill Rhan 5

I wasanaethau Rhan 5

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ....................................................................................................................... 3

# 1. Trosolwg

### Beth sy'n cael sylw yn y canllawiau hyn

Dyma ein canllawiau statudol a gynhyrchwyd o dan adran 82 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 i helpu darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd, sy'n dangos neu'n cyhoeddi cynnwys pornograffig ar y gwasanaethau hynny, i gydymffurfio â'u dyletswyddau rheoleiddio a nodir yn adran 81 o dan Ran 5 o'r Ddeddf honno. Prif ddyletswydd y darparwyr gwasanaethau hyn yw sicrhau, drwy ddefnyddio dulliau dilysu oedran neu amcangyfrif oedran (neu'r ddau), nad yw plant fel rheol yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig o'r fath. Rydym yn defnyddio'r term **'sicrwydd oedran'** yn y canllawiau hyn i gyfeirio at ddilysu ac amcangyfrif o'r fath.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar y materion y cyfeirir atynt yn adran 82, yn enwedig:

- materion sy'n berthnasol i asesu a yw gwasanaeth o fewn cwmpas dyletswyddau Rhan 5;
- enghreifftiau o fathau o sicrwydd oedran a allai fod yn addas at ddibenion cydymffurfio, a'r meini prawf y dylai darparwyr gwasanaethau eu bodloni i sicrhau bod y sicrwydd oedran a weithredir yn effeithiol iawn wrth benderfynu'n gywir a yw defnyddiwr penodol yn blentyn ai peidio;
- materion sy'n berthnasol i sut gall darparwyr gwasanaethau gadw cofnod ysgrifenedig a chynhyrchu datganiad sydd ar gael i'r cyhoedd yn nodi sut maent wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau Rhan 5 ychwanegol hyn, gan gynnwys sut gall darparwyr ystyried pwysigrwydd diogelu defnyddwyr rhag torri cyfraith preifatrwydd yn eu cofnod ysgrifenedig; ac
- yr egwyddorion y byddwn fel arfer yn eu dilyn wrth benderfynu a yw darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau a lle rydym yn debygol o ystyried nad yw wedi cydymffurfio.

Rydym yn crynhoi dyletswyddau Rhan 5 isod, ynghyd â'r camau allweddol rydym yn eu hargymell i gefnogi cydymffurfiad â'r dyletswyddau hynny fel sy'n cael sylw yn y canllawiau hyn.

## Crynodeb o ddyletswyddau Rhan 5

- Rhoi sicrwydd oedran ar waith, er enghraifft drwy ddefnyddio un neu fwy o'r dulliau a restrir yn Adran 4 y canllawiau hyn.
- Sicrhau bod y broses sicrwydd oedran:
  - yn fath a allai fod yn effeithiol iawn o ran pennu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai peidio; ac
  - yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn effeithiol iawn wrth benderfynu'n gywir a yw defnyddiwr yn blentyn ai peidio (er enghraifft, drwy ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 4 o'r canllawiau hyn).
- Sicrhau, drwy ddefnyddio'r broses sicrwydd oedran dan sylw, nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig darparwr sy'n cael ei reoleiddio ar y gwasanaeth (h.y., drwy ddefnyddio mesur rheoli mynediad effeithiol).

- Cadw cofnod ysgrifenedig hawdd ei ddeall o’r canlynol:
    - y mathau o sicrwydd oedran a ddefnyddir a sut cânt eu defnyddio gan y darparwr gwasanaeth neu ddarparwr sicrwydd oedran trydydd parti;
    - sut mae’r darparwr gwasanaeth wedi ystyried cyfreithiau preifatrwydd a diogelu data wrth benderfynu pa broses sicrwydd oedran i’w defnyddio a sut.
- Cynhyrchu crynodeb sydd ar gael i’r cyhoedd o’r rhannau o’r cofnod ysgrifenedig sy’n ymwneud â rhoi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith, gan gynnwys y dull(iau) sicrwydd oedran mae’r darparwr gwasanaeth yn eu defnyddio a sut mae’n cael ei ddefnyddio.

## Y camau allweddol i gefnogi cydymffurfiaeth â dyletswyddau Rhan 5

- Sicrhau bod y broses sicrwydd oedran yn cyflawni’r pedwar maen prawf sef cywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch.
- Ystyried egwyddorion hygyrchedd a’r gallu i ryngweithredu wrth roi sicrwydd oedran ar waith.
- Gweithredu unrhyw dechnegau i liniaru yn erbyn ymdrechion i osgoi’r broses sicrwydd oedran sydd ar gael yn hawdd i blant a lle mae’n rhesymol tybio y gall plant eu defnyddio.
- Ystyried a ddylid cynnig dulliau amgen pan fydd dull sicrwydd oedran ond yn effeithiol iawn i nifer cyfyngedig o ddefnyddwyr .
- Sicrhau bod y cofnod ysgrifenedig yn para’n dda, yn hygyrch, yn hawdd ei ddeall ac yn gyfoes.
- Ymgyfarwyddo â deddfwriaeth diogelu data, a sut mae ei chymhwyso i’w dull(iau) sicrwydd oedran, drwy ymgynghori â chanllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).
- Peidio â lletya, rhannu na chaniatáu cynnwys sy’n cyfarwyddo nac yn annog defnyddwyr sy’n blant i osgoi’r broses sicrwydd oedran neu reolaethau mynediad.